**<u>Disgrifiad Swydd: Swyddi Gwasanaethau Proffesiynol</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth:** | Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol |
| **Teitl y Swydd:** | Uwch-swyddog Prosiect (trosglwyddo gwybodaeth) |
| **Adran/Pwnc:** | I'w gwblhau |
| **Cyflog:** | Gradd 8: £39,906 i £46,049 y flwyddyn |
| **Oriau gwaith:** | Amser llawn |
| **Nifer y swyddi:** | *1* |
| **Contract:** | Mae hyn yn swydd am gyfnod penodol tan 31 Rhagfyr 2027 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton |

**Prif Ddiben y Swydd**

Bydd yr Uwch-swyddog Prosiect yn gweithio fel rhan o'r prosiect Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil Strategol (ARI). Mae'r prosiect hwn wedi cael ei ariannu gan Rwydwaith Ymgysylltu â Pholisi'r Prifysgolion (Drwy Ymchwil ac Arloesi'r DU) a Chyfrif Cyflymu Effaith Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Prifysgol Abertawe am 15 mis o fis Hydref 2026 er mwyn peilota'r defnydd o Feysydd o Ddiddordeb Ymchwil (ARI), ochr yn ochr â mecanweithiau ymgysylltiad academaidd-polisi eraill mewn llywodraeth leol. Mae Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil yn helpu i gadarnhau angen llywodraeth leol o ran tystiolaeth ac ymgysylltu ag ymchwilwyr er mwyn llenwi bylchau tystiolaeth, sy'n gwella'r cyfleoedd i swyddogion llywodraeth leol ymgymryd â chyfleoedd dysgu a chydweithredu gan brifysgolion a gwella'r defnydd o dystiolaeth ac arbenigedd mewn polisi cyhoeddus. Mae'r prosiect peilot yn canolbwyntio ar ddatblygu proses Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil gynaliadwy ar gyfer Cyngor Abertawe, gan weithio gydag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Abertawe a'u partneriaid.

Bydd yr Uwch-swyddog Prosiect yn cael ei gyflogi gan Brifysgol Abertawe yn y Swyddfa Ymchwil i Heriau Lleol (LCRO); bydd yn cael ei gynnal gan y Gwasanaeth Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol yng Nghyngor Abertawe; a bydd yn cwrdd yn rheolaidd â Clare Stainthorp, Cydlynydd Polisi UPEN (Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil ledled y DU), at ddibenion cymorth ac adrodd.

Mae'r Uwch-swyddog Prosiect yn gyfrifol am gymhwyso'r canlynol yn annibynnol mewn sefyllfaoedd o fewn fframweithiau a chanllawiau sefydledig:

1. Gweithio gyda phersonél ar draws Cyngor Abertawe mewn rôl ymgynghorol a chefnogol er mwyn diffinio a mireinio cwestiynau Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil, er mwyn cyhoeddi Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth.
2. Gweithio gyda phersonél ar draws Cyngor Abertawe a Phrifysgol Abertawe i greu prosesau mewnol ac allanol er mwyn hwyluso ymgysylltiad â chwestiynau Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil, cyn ac ar ôl eu cyhoeddi.
3. Gweithio gyda phersonél ar draws Cyngor Abertawe i greu system fonitro gynaliadwy er mwyn olrhain a dangos tystiolaeth o ymatebion i'r Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil a gyhoeddir, gan gynnwys cyfrifoldeb am grynhoi a syntheseiddio ymatebion.
4. Gweithio gyda phersonél ar draws Cyngor Abertawe i gynllunio a datblygu mecanwaith gwerthuso i nodi effaith Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil ar ymgysylltiad y Cyngor ag arbenigedd yn rhanbarth Abertawe a'r tu hwnt.
5. Cyfrannu at ddysgu ac allbynnau Rhaglenni UPEN, gan gynnwys eu profi a mewnbwn i Arweinlyfr Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil hyblyg ledled y DU; dogfennu gweithgarwch a gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod peilot, a rhannu'r rhain mewn fformatau y mae'r ddwy ochr yn cytuno arnynt (e.e. blog, gweminar, cyfrannu at Gymuned Ymarfer Ymarferwyr Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil UPEN).
6. Cyfrannu at raglenni LCRO ar gyfer gwaith cydweithredol a gynhyrchir ar y cyd â'r cyngor, y Brifysgol, a phartneriaid yn y gymuned, gan sicrhau ymagweddau cynhwysol sy'n seiliedig ar ddeialog er mwyn dangos tystiolaeth o ddatblygiad a defnydd Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil.

| | |
|---|---|
| | 7. Cefnogi LCRO wrth gipio a dadansoddi data/gwybodaeth yn ymwneud â newidiadau o ran ymarferion ymgysylltu a lledaenu gwybodaeth, datblygiad perthnasoedd, a defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i lywio polisi a gwneud penderfyniadau.<br>8. Gweithio gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Abertawe i sicrhau bod agwedd ariannol y cronfeydd Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil Strategol a ddyfarnwyd i Abertawe yn cael ei rheoli ac y ceir adroddiadau amdani.<br>9. Nodi a monitro risgiau'r prosiect, gan gynllunio ymatebion iddynt a'u rhoi ar waith ac ymateb i faterion eraill sy'n effeithio ar y prosiect.<br>10. Casglu a dadansoddi data monitro a gwerthuso yn unol â'r fframwaith gwerthuso ar gyfer y prosiect, gan gynnwys drwy greu ac anfon arolygon a chynnal cyfweliadau adborth gyda phobl sy'n ymwneud â'r prosiect.<br>11. Amserlennu a threfnu cyfarfodydd a gweithdai ar gyfer y prosiect, gan lunio dogfennaeth glir, o ansawdd uchel (nodiadau gweithredu/cofnodion) i gefnogi gwneud penderfyniadau, atebolrwydd, lledaenu a chyflawni, yn ôl yr angen.<br>12. Meithrin perthnasoedd dibynadwy ar draws y byd academaidd, polisi ac ymarfer er mwyn cefnogi cyfnewid gwybodaeth effeithiol; trosi anghenion polisi a thystiolaeth rhwng sectorau; a hwyluso cydweithrediad ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cefnogi datblygu a defnydd Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 13. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>14. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>15. Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o'r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>16. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.<br>17. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd Arweinyddiaeth** | Mae holl feysydd y Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn unol â set ddiffiniedig o Werthoedd Craidd – http://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/safon-fyd-eang/gwerthoedd/gwasanaethau-proffesiynol/ – a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rôl o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.Yn ogystal, bydd y sawl a benodir yn gweithredu yn unol â set ddiffiniedig o werthoedd Arweinyddiaeth. Ein Gwerthoedd:<br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein gallu creadigol, ein huniondeb a'n gallu i farnu i gyflwyno gwasanaethau a datrysiadau arloesol, effeithiol, ac effeithlon, sydd o ansawdd rhagorol.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |

| | |
|---|---|
| **Rheoli Prosiectau** | **<u>Rheoli Prosiectau ym Mhrifysgol Abertawe</u>**<br>**Gweithio gyda'r Gymdeithas Rheoli Prosiectau (APM)**<br>Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad ag Achrediad yr APM, ac mae'n ystyried Corff Gwybodaeth yr APM a Fframwaith Cymhwysedd yr APM yn brif pwynt cyfeirio ar gyfer ei gweithgareddau rheoli prosiectau.<br><br>Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolios Strategol yn gyfrifol am wella proffesiynoldeb rheoli prosiectau a newid ar draws y Brifysgol. Mae cyngor, cymorth, a deunydd dysgu a datblygu sy'n ymwneud â rheoli prosiectau a newid ar gael drwy'r tîm hwn.<br><br>Disgwylir i bob aelod staff rheoli prosiectau ddod yn aelod o gorff proffesiynol rheoli prosiectau, yn ddelfrydol yr APM. Gweler https://www.apm.org.uk/membership/ am ganllawiau ar aelodaeth unigol. |
| **Manyleb y Person** | **Gwerthoedd:**<br>1. Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol<br>2. Gallu gweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid.<br>3. Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.<br><br>**Cymwysterau:**<br>**4.** Cymwysterau hyd at lefel gradd neu gyfwerth.<br>**5.** Parodrwydd i weithio tuag at gymhwyster y Gymdeithas Rheoli Prosiectau (APM).<br>**6.** Parodrwydd i weithio tuag at aelodaeth yr APM.<br><br>**Profiad:**<br>**7.** Profiad o lunio cynllun prosiect manwl ar brosiect nad yw'n rhy gymhleth, ac yna ei reoli a’i fonitro i sicrhau y caiff y gweithgareddau eu cwblhau’n llwyddiannus i gyflawni’r targedau gofynnol o ran ansawdd, amserlenni a chyllidebau.<br>**8.** Profiad o nodi risgiau a chynllunio ymatebion, eu rhoi ar waith a'u monitro, mewn prosiect cymhleth.<br>**9.** Profiad o reoli, dylanwadu, cydweithredu a gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid ar brosiect nad yw'n rhy gymhleth<br><br>**Gwybodaeth a Sgiliau:**<br>**10.** Sgiliau trefnu da, y gallu i reoli amrywiaeth o dasgau ar yr un pryd a threfnu a blaenoriaethu llwyth gwaith personol a llwythi gwaith eraill er mwyn bodloni cerrig milltir prosiect.<br>**11.** Sgiliau cyfathrebu rhagorol gyda thystiolaeth glir o sgiliau cyflwyno effeithiol, sgiliau llunio adroddiadau a’r gallu i siarad ag amrywiaeth o randdeiliaid.<br>**12.** Gwybodaeth am raglen gynllunio ar gyfer rheoli prosiectau, megis MS Project<br>**13.** Gwybodaeth am drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau yn y maes hwnnw er mwyn hwyluso ymgysylltiad rhwng sefydliadau llunio polisi a phrifysgolion yn y DU<br><br>**Meini Prawf Dymunol:**<br>**14.** Profiad o weithio mewn amgylchedd addysg uwch a/neu ymdrin â rhanddeiliaid mewn amgylchedd sefydliad addysg uwch<br>**15.** Profiad o hwyluso gweithdai a digwyddiadau dysgu rhyngweithiol eraill.<br>**16.** Profiad o weithio yn y sector polisi a/neu ymdrin â rhanddeiliaid yn y sector polisi.<br>**17.** Profiad o roi sgiliau dadansoddol ar waith er mwyn syntheseiddio tystiolaeth amrywiol<br>**18.** Profiad o weithredu mewn strwythurau llywodraethu aml-sefydliadol ar gyfer prosiect |

| | |
|---|---|
| | **19.** Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad gyrfa personol a phroffesiynol. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |